# Rhaglen Datblygu Arweinwyr o Leiafrifoedd Ethnig

Yn barod i ddechrau eich cais? Neidiwch ymlaen

## Ynglŷn â'r rhaglen

Rydym yn chwilio am dri arweinydd canol ac/neu uwch arweinydd o gymunedau lleiafrifoedd ethnig – un yr un o'r cyfnodau cynradd ac uwchradd a gynhelir neu o golegau addysg bellach i wneud cais i ymuno â'n **Rhaglen Beilot i Ddatblygu Arweinwyr o Leiafrifoedd Ethnig.**

Yn ystod y rhaglen beilot, byddwch

- yn ennill profiad o'n fframweithiau arolygu
- yn datblygu medrau arolygu a gwerthuso, er enghraifft i arsylwi sesiynau, siarad â dysgwyr a chraffu ar samplau o'u gwaith
- yn cael cyfleoedd i ymuno â thimau arolygu neu adolygiadau thematig lle gallwch ddyfnhau eich dealltwriaeth o arweinyddiaeth effeithiol a datblygu eich medrau ymhellach, er enghraifft trwy drafodaethau â staff addysgol
- yn cwblhau tasgau myfyrio sy'n gysylltiedig â'ch hyfforddiant a'ch profiadau arolygu ac unrhyw flaenoriaethau datblygu'r ysgol/coleg rydych chi'n gyfrifol amdanynt
- yn gallu manteisio ar fentora/anogaeth gydag AEF profiadol i gefnogi eich dealltwriaeth a'ch datblygiad
- yn cymryd rhan mewn gweminarau ar fedrau cyfathrebu ac arweinyddiaeth yn y sector cyhoeddus

Mae hwn yn gyfle gwych i ddeall mwy am arolygu, datblygu eich medrau, gweld arfer effeithiol lle mae'n digwydd bob dydd, a mynd â'r profiadau hyn yn ôl at eich darparwr i gefnogi gwelliant. Rydym yn gobeithio y bydd hefyd yn ein helpu ni i ddechrau datblygu arolygwyr cymheiriaid y dyfodol.

## Cymhwysedd

Byddwch yn gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg a/neu Saesneg a:

- byddwch o gefndir lleiafrif ethnig
- byddwch yn gweithio mewn ysgol neu goleg AB yng Nghymru ar hyn o bryd
- bydd gennych o leiaf 5 mlynedd o brofiad addysgu
- bydd gennych gyfrifoldeb addysgu, dysgu neu les (am dâl neu heb dâl)
- bydd gennych gefnogaeth eich Pennaeth i'ch galluogi i gymryd rhan mewn sesiynau wyneb-yn-wyneb a gweithgarwch arolygu

Rhaid i chi fod yn gweithio mewn ysgol gynradd, pob oed neu uwchradd a gynhelir neu mewn coleg addysg bellach yng Nghymru i fod yn gymwys ar gyfer y rhaglen

hon.

Os ydych wedi gwneud cais i fod yn Arolygydd Cymheiriaid o'r blaen ond na chawsoch eich gwahodd i'r hyfforddiant, byddem yn fodlon ystyried cais ar gyfer y rhaglen hon.

## Dethol a hyfforddiant

Byddwn yn cysylltu â chi am ganlyniad eich cais erbyn **10 Gorffennaf 2023**. Bydd y deunyddiau hyfforddiant ar gael yn Gymraeg a Saesneg i gefnogi'r rhaglen, a fydd yn cynnwys:

- **Tri chyfarfod wyneb-yn-wyneb**
  Bydd y sesiynau dysgu proffesiynol hyn yn canolbwyntio ar agweddau gwahanol ar arolygu a gwerthuso a byddant yn cael eu cynnal ar *dyddiadau a lleoliadau i'w cadarnhau*.
- **Tair sesiwn hyfforddiant o bell**
  Bydd pob sesiwn wyneb-yn-wyneb yn cael ei dilyn gan sesiwn hyfforddiant o bell gyda'ch hyfforddwr AEF
- **Hyd at ddau weithgaredd arolygu**
  Bydd sesiynau dysgu proffesiynol 2 a 3 yn cael eu hategu gan gyfle i gymhwyso medrau newydd mewn gweithgaredd arolygu
- **Rhestr ddarllen a dyddiadur myfyrio**
  Bydd y rhestr ddarllen a'r dyddiadur myfyrio yn eich helpu i baratoi ar gyfer yr hyfforddiant a chefnogi eich datblygiad. Bydd pob gweithgaredd yn gysylltiedig â'r Safonau Arweinyddiaeth Proffesiynol.
- **Cyfres o seminarau**
  Byddwch yn gallu manteisio ar seminarau a gweminarau i gynnig safbwyntiau amgen ar arweinyddiaeth addysgol. Caiff y rhain eu cynnal y tu allan i'r diwrnod ysgol.
- **Gwerthuso'r rhaglen**
  Gofynnir i bawb sy'n cymryd rhan werthuso'r cwrs i lywio datblygiad yn y dyfodol.

**Bydd y rhaglen yn cael ei chynnal o fis Medi 2023 tan fis Mawrth 2024**

Cyfanswm yr ymrwymiad amser wyneb-yn-wyneb fydd hyd at 7 niwrnod yn ystod y cyfnod hwn o chwe mis, ynghyd ag unrhyw amser teithio sy'n ofynnol.

Mae cymryd rhan yn y rhaglen ddatblygu yn hollol ddi-dâl a byddwn yn talu eich costau teithio, cynhaliaeth a llety (os ydych yn gymwys), yn unol â'n polisi teithio a chynhaliaeth. Nid ydym yn gallu talu costau athrawon llanw ar gyfer cymryd rhan yn y rhaglen hon.

## Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Os cewch eich gwahodd i'r hyfforddiant, byddwn yn gofyn i chi fod â gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Dylai fod yn dystysgrif manylwch, dim mwy na thair blwydd oed, a dylai gynnwys y categori gweithlu plant. Bydd angen y gwiriad hwn arnoch i ddod yn Arolygydd Cymheiriaid gwbl gofrestredig.

## Hyfforddiant i arolygwyr cymheiriaid

Gallai ymgeiswyr cymwys ymuno â’r rownd nesaf o hyfforddiant i arolygwyr cymheiriaid ar ôl cwblhau’r rhaglen ddatblygu hon yn llwyddiannus. Am fwy o wybodaeth am eich hyfforddiant arolygwyr cymheiriaid a’r meini prawf cymhwysedd, gweler yma.

## Sut i wneud cais

**Ffurflen gais ar-lein:** https://www.smartsurvey.co.uk/s/Estyn-Ethnic-Minority-Leaders-Development-Programme-Application/
**Dyddiad cau: 29 Mehefin 2023**

Byddwn yn cysylltu â phawb â chanlyniad eu cais erbyn **dydd Llyn 29 Mehefin**.

Mae unrhyw feysydd sydd wedi’u marcio â * yn orfodol, felly ni fyddwch yn gallu cyflwyno’r ffurflen heb roi ateb yn y meysydd hyn. Os nad ydynt yn berthnasol i chi, rhowch ‘Ddim yn berthnasol’.

## Manylion cyswllt

Mae’r pecyn hwn yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch am y rôl a’r broses ymgeisio, ond os oes gennych unrhyw gwestiynau, anfonwch neges e-bost atom yn digwyddiadau@estyn.llyw.cymru neu ffoniwch ni ar 02920 44 6510.

Rydym yn edrych ymlaen at dderbyn eich cais.